**Eitem ar yr agenda: 4(i)**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion o gyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, gynhaliwyd ddydd Llun 15fed Hydref 2007 yn Neuadd y Dref, Wrecsam. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y bore.

**Yn bresennol:**

| Y Cynghorydd | Yn Cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| E C George (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| | |
| P C Evans YH | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W E Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J A MacLennan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Clayton | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| R G Hampson | Cyngor Sir y Fflint |
| C Shone | Cyngor Sir y Fflint |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |
| N S Colbourne | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P M Shone | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); D Docx (Prif Swyddog Cynorthwyol, Cyllid a Chaffael); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); W A Murphy (Uwch Reolwr Gweithrediadau); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli); S Forrest (Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

## 1) Ymddiheuriadau

| Y Cynghorydd | Yn Cynrychioli |
|---|---|
| R D Peacock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Williams | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| W T Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| C Hanks | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) |

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim eitemau wedi eu cyflwyno iddo ef na'r Clerc i'w hystyried.

Cyn cychwyn y busnes, rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod i'r aelodau fod tân wedi digwydd mewn cartref ym Mhenyffordd ger Ffynnongroyw yn ystod oriau mân y bore, ac yn anffodus bu farw dyn 24 oed. Roedd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cynnal y Gwasanaethau) wrthi yn goruchwylio'r gwaith archwilio tân ar y safle. Fe nododd y Prif Swyddog Tân gyda gofid, er ymdrechion cynyddol y Gwasanaeth i drosglwyddo diogelwch tân cymunedol, roedd y marwolaethau diangen yma'n parhau i ddigwydd yn llawer rhy aml.

## 3) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

i. estynnodd ddymuniadau gorau'r Awdurdod i'r Cynghorydd W T Roberts oedd wedi treulio ychydig ddyddiau yn yr ysbyty yn ddiweddar;
ii. rhoddodd wybod i'r aelodau fod y Cynghorydd Alan Nichols, cyn gynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar yr Awdurdod, wedi marw. Talodd yr Is-Gadeirydd deyrnged i'r Cynghorydd Nichols oedd wedi gwasanaethau ar yr Awdurdod a'i Banel Gweithredol hyd at 2004;
iii. rhoddodd wybod i'r aelodau am ddyddiadau cyfarfodydd pwyllgor ffurfiol ac anffurfiol yn y dyfodol.

## 4) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub gynhaliwyd 18fed Mehefin 2007

***<u>Penderfynwyd:</u>* - cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth:

ii. Cyfarfod y Panel Gweithredol gynhaliwyd ar 21ain Mai 2007
iii. Cyfarfod y Panel Gweithredol gynhaliwyd 25ain Gorffennaf 2007

**5) Materion yn Codi**

Cododd y materion canlynol o'r cofnodion a gyflwynwyd:

**Cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub 18fed Mehefin 2007:**
**Tudalen 3, Eitem 3, Cyhoeddiadau:** rhoddodd y Prif Swyddog Tân wybod fod Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol newydd wedi cael ei hapwyntio. Roedd Mrs Tracey Williams, oedd wedi dechrau ei swydd yr wythnos flaenorol, wedi bwriadu mynychu'r cyfarfod, ond yn dilyn y tân angheuol ym Mhenyffordd, roedd wedi cael ei hanfon yno i ddelio gydag ymholiadau'r wasg a'r cyfryngau.

**Tudalen 4, Eitem 5, Materion yn Codi – Cynllun Lleihau Risg 2008/09:** ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod, cafwyd newid ym mhortfffolios cabinet a deiliaid portffolio Llywodraeth Cynulliad Cymru. Nid oedd swydd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chyflwyno Gwasanaeth Cyhoeddus yn bodoli mwyach, a nawr, roedd y cyfrifoldeb am y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru yn gorwedd gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, Dr. Brian Gibbons AC. Cynghorwyd yr aelodau gan y Prif Swyddog Tân, er y gwnaed cyswllt cychwynnol gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cyhoeddus a Chyflwyno Gwasanaethau Cyhoeddus, a chyswllt dilynol gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol i geisio cychwyn y 'trafodaethau anffurfiol' angenrheidiol ar gynigion Cynllun Lleihau Risg yr Awdurdod, yn unol â chanllawiau'r Cynulliad, ni wnaed cynnydd yn y maes hwn. Gan fod rhaid i'r Awdurdod gymeradwyo a chyhoeddi ei Gynllun Gweithredu erbyn 31ain Hydref 2007, ac wrth ystyried fod y cynigion yn cael eu cyflwyno i aelodau er cymeradwyaeth yn y cyfarfod presennol, nid oedd llawer o ddiben mynd ar ôl swyddogion y Cynulliad i drefnu cyfarfod ar y mater yn dilyn cyfarfod presennol yr Awdurdod.

**Tudalen 5, Eitem 7 – Lleoli Peiriannau Deuddiben:** gofynnodd y Cadeirydd a dderbyniwyd unrhyw geisiadau am ganiatâd i siarad, yn dilyn sylwadau'r Is-Gadeirydd yn y cyfarfod blaenorol. Fe gynghorodd y Swyddog Monitro nad oedd yr un aelod wedi dod ato gyda chais am ganiatâd i siarad. Fe ddywedodd hefyd, mewn perthynas â'r mater o dan drafodaeth, nad oedd yn ymwybodol fod gan unrhyw aelod ddiddordeb fyddai'n arwain at gais am ganiatâd i siarad. Roedd ceisiadau am ganiatâd i siarad yn briodol mewn achosion megis pan fod aelod, neu berthynas i aelod, yn cael eu effeithio'n uniongyrchol gan fater neu bwnc penodol. Nid oedd y ffaith fod y mater o dan ystyriaeth yn gysylltiedig â'r ardal oedd aelod yn ei gynrychioli yn golygu fod rhaid datgan diddordeb.

## 6) Adroddiad y Cadeirydd

Fe gyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad (ddosbarthwyd yn y cyfarfod) oedd yn rhoi diweddariad byr i aelodau ar y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr oedd wedi eu mynychu yn rhinwedd ei swydd fel y Cadeirydd, ac yn ei absenoldeb gan yr Is-Gadeirydd, ers y cyfarfod diwethaf yr Awdurdod ar 18fed Mehefin 2007.

***<u>Penderfynwyd:</u> - nodi'r wybodaeth oedd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.***

## 7) Ymateb i'r Ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu Cynllun Lleihau Risg Drafft yr Awdurdod 2008/09

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad a'r atodiad cysylltiedig (ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn crynhoi'r ymatebion dderbyniwyd i ymgynghoriad yr Awdurdod ar Gynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg Drafft 2008/09. Roedd yr ymatebion i'r Cynllun Gweithredu drafft 2008/09 wedi cael eu trafod gan Weithgor Cynllun Lleihau Risg yr Awdurdod a'r Panel Gweithredol yn eu cyfarfodydd ar 24ain Medi. Roedd y ddau bwyllgor wedi rhoi ystyriaeth lawn a manwl i'r sylwadau dderbyniwyd, ac, yn dilyn hyn, roedd y Panel Gweithredol wedi ffurfio argymhelliad mewn perthynas â chymeradwyo'r Cynllun Gweithredu. Roedd yr argymhelliad hwn wedi ei gynnwys yn yr adroddiad oedd o flaen yr aelodau.

Atgoffwyd aelodau gan y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) fod y cynnig cyntaf, sef y prif gynnig, yn y Cynllun Gweithredu drafft, yn rhoi pwyslais newydd ac ychwanegol ar atal tanau, yn enwedig y rhai hynny oedd yn fygythiad i fywyd, yn deillio o argymhellion adroddiad Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân i Farwolaethau yn y Cartref trwy Danau Damweiniol, gomisiynwyd yn dilyn y cynnydd annerbyniol yn y nifer o'r mathau yma o ddigwyddiadau yng Ngogledd Cymru yn ystod 2006/07.

Rhoddodd y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol friff i aelodau ar gynnwys yr adroddiad, yn cynnwys y dulliau ymgymerwyd â'r broses ymgynghori a'r modd cafodd ei gyhoeddi, y lefel o ymatebion dderbyniwyd a'r categorïau o unigolion a sefydliadau oedd wedi ymateb. Fe eglurodd, allan o'r 62 o ymatebion dderbyniwyd o fewn y ffrâm amser 12 wythnos, roedd oddeutu dwy ran o dair o'r ymatebion gan bersonél oedd yn gwasanaethu, yr un ohonynt gan bersonél yr Ystafell Reoli neu staff cefnogi. Roedd atodiad yr adroddiad yn categoreiddio'r ymatebion dderbyniwyd, roedd y rhain yn disgyn i 6 grŵp gwahanol: sylwadau cyffredinol am y ddogfen Cynllun Gweithredu drafft; sylwadau yn cefnogi'r cynigion; sylwadau oedd yn anghytuno'n sylfaenol gyda'r cynigion; sylwadau nad oedd yn cefnogi'r cynigion; sylwadau oedd yn awgrymu dewisiadau eraill a chwestiynau. Gellir rhannu'r categori olaf yn ddwy isadran: cwestiynau dilys oedd yn edrych am wybodaeth a chwestiynau oedd yn rhethregol eu natur.

Yna, aeth y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol ymlaen i fanylu'r ymatebion dderbyniwyd ac ymateb arfaethedig yr Awdurdod fel a gyflwynwyd yn atodiad yr adroddiad. Fe eglurodd fod rhai cynigion wedi atynnu llawer mwy o ymatebion nag eraill ac, er eu bod wedi eu cyflwyno gan ymatebwyr gwahanol, roedd geiriad rhai o'r sylwadau yn debyg iawn neu bron yn union yr un fath. Roedd y cynnig i gyflwyno dull amgen o restru personél gweithredol yn fater oedd wedi atynnu sylwadau oedd yn cael eu hailadrodd.

Gwnaeth y Cynghorydd W J Chorton sylw y byddai wedi gwerthfawrogi crynodeb yn yr adroddiad o ymateb personél Llawn Amser, Criw Dydd a'r Ystafell Reoli ac adborth i gyflwyniad y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) ar yr Adolygiad Rhestru. Gan ymateb i'r pwynt yma, fe gynghorodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) fod ganddo gylch gwaith diffiniedig penodol pan yn cyflwyno'r cyflwyniadau. Roedd i gyflwyno darganfyddiadau'r adolygiad i'r 'gwylfeydd' ym mhob gorsaf ac yn yr Ystafell Reoli, amlinellu nod y cynnig i'r personél a'i oblygiadau, a chynghori personél y dylai unrhyw sylwadau neu arsylwad y dymunent ei gyflwyno gael ei gyflwyno drwy'r sianel briodol osodwyd ar gyfer y broses ymgynghori.

Wrth gynnig argymhellion yr adroddiad, fe ddiolchodd yr Is-Gadeirydd i'r swyddogion am eu gwaith wrth lunio ac ymgynghori ar y Cynllun Gweithredu drafft. Rhoddodd wybod i'r Awdurdod, yn dilyn trafodaethau Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg a'r Panel Gweithredol, fod y Panel wedi penderfynu fod cynnig 3 yn gofyn am ragor o ymchwil ac felly, yn argymell i'r Awdurdod gymeradwyo cynigion 1, 2 a 4 ar hyn o bryd, gan aros am ddadansoddiad pellach o'r materion godwyd gan ymatebion mewn perthynas ag argymhelliad 3. Roedd Awdurdod Tân ac Achub Manceinion eisoes wedi gweithredu system restru newydd debyg i'r un gynigir ar gyfer Gogledd Cymru. Fel rhan o'r ymchwil pellach, byddai Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg yn gwahodd cynrychiolwyr o Awdurdod Tân ac Achub Manceinion i gyfarfod o'r Gweithgor i rannu eu safbwyntiau a phrofiadau o'r system restru newydd. Eiliwyd y cynnig.

Cyn pleidleisio ar yr argymhelliad, fe holodd y Clerc beth oedd amserlen arfaethedig y gwaith ymchwil ychwanegol o gwmpas y trydydd cynnig. Ymddiheurodd nad oedd wedi gallu bod yn bresennol yng nghyfarfod y Panel Gweithredol pan gafodd yr argymhelliad ei ffurfio, ond eglurodd ei fod o'r farn dylid cymryd penderfyniad ar y mater cyn gorffen y trafodaethau ar setliad y gyllideb nesaf a chyn etholiadau'r awdurdod lleol y flwyddyn nesaf. Roedd y Clerc yn pryderu byddai'r Awdurdod, drwy gymeradwyo'r cynnig cyntaf a gohirio'r penderfyniad ar y trydydd cynnig, yn ymrwymo ei hunan i gychwyn rhaglen o waith na allai ei fforddio. Gan ystyried pwysau cyllidebau hysbys a chyfyngiadau tebygol yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, rhybuddiodd y Clerc yr aelodau yn erbyn gohirio penderfyniadau ar gynigion amhoblogaidd a'u hatgoffa o'u dyletswyddau o dan y ddeddfwriaeth Gwerth Gorau.

Fe gynghorodd y Prif Swyddog Tân y byddai'r gwaith ar y cynnig gohiriedig yn cael ei gario drosodd ac yr ymgymerir ag ef fel rhan o broses Cynllunio Lleihau Risg 2009/10. Byddai trafodaeth ar oblygiadau ariannol gohirio'r cynnig yn ffurfio rhan o'r trafodaethau am Gyllideb y Gwasanaeth oedd i'w gynnal yng nghyfarfod anffurfiol yr Awdurdod Tân ac Achub dydd Llun, 5ed Tachwedd 2007. Roedd y Trysorydd yn annog yr aelodau i wneud pob ymdrech i fynychu'r cyfarfod ar 5ed Tachwedd oherwydd y byddai'n eu helpu i ddeall goblygiadau cyhoeddiad yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant diweddar.

Cynghorodd yr Is-Gadeirydd fod y Gweithgor yn edrych i baratoi Cynllun Lleihau Risg drafft 2009/2010 cyn etholiadau'r awdurdod lleol y flwyddyn nesaf. Yn dilyn trafodaeth fanwl:

***<u>Penderfynwyd:</u> -***

- ***i.*** ***nodi'r ymatebion dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg drafft 2008/09;***
- ***ii.*** ***cadarnhau bwriad yr Awdurdod i fwrw ymlaen gyda'r cynlluniau ddangoswyd yng Nghynigion 1, 2 a 4 o Gynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg drafft 2008/09;***
- ***iii.*** ***cytuno i ohirio penderfyniad ar y cynlluniau ddangoswyd yng Nghynigion 3(a), Adolygiad Rhestru, a 3(b) Opsiwn Ymateb Penodol o Gynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg drafft 2008/09 er mwyn caniatáu amser i'r Gweithgor Lleihau Risg ymgymryd â gwaith ychwanegol manwl i asesu goblygiadau llawn y cynlluniau yma, a chyflwyno ei argymhelliad i'r Panel Gweithredol am gadarnhad gan yr Awdurdod llawn; a***
- ***iv.*** ***cadarnhau fod geiriad terfynol yr ymateb i'r sylwadau ysgrifenedig gyflwynwyd gan ymgynghorwyr ar Gynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg drafft 2008/09, fel a ddrafftiwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.***

**8) Cynllun Gwella Drafft 2007/08**

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad a Chynllun Gwella drafft 2007/08 yr Awdurdod (ddosbarthwyd yn y cyfarfod) i aelodau. Fe eglurodd ei bod yn ofyniad statudol i fersiwn cymeradwyedig y Cynllun Gwella fod ym mharth cyhoeddus erbyn 31ain Hydref yn flynyddol. Fe ymddiheurodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) fod yr adroddiad a'r Cynllun Gwella drafft yn hwyr. Fe eglurodd fod angen i swyddogion lunio'r Cynllun drafft yn absenoldeb y Canllaw ar gyfer Rhaglen Cymru ar Gyfer Gwella - Awdurdodau Tân ac Achub Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fe eglurodd hefyd fod y mwyafrif o'r wybodaeth yn y Cynllun drafft wedi cael ei gyflwyno i aelodau yn ystod y flwyddyn bresennol mewn ffurf adroddiadau eraill i'r Awdurdod. Yng ngolwg argaeledd hwyr yr adroddiad a'r cynllun drafft, fe ofynnodd yr Is-Gadeirydd fod yr Awdurdod yn dirprwyo'r dasg o gymeradwyo Cynllun Gwella 2007/08 i'r Panel Gweithredol. Gan ymateb i'r cais yma, fe nododd y Clerc, o

ran archwilio, efallai na fyddai hyn yn dderbyniol gan fod rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi eu Cynlluniau Gwella cymeradwyedig erbyn 31ain Hydref pob blwyddyn. Fe gynghorodd Rheolwr Cynllunio Corfforaethol y Gwasanaeth yr aelodau ei bod hi wedi cysylltu â Swyddfa Archwilio Cymru, a fyddai, yn y man, yn gyfrifol am archwilio'r Cynllun i holi os fyddai'n nodi cymeradwyaeth mewn egwyddor i'r cynllun cyn 31ain Hydref, gyda chymeradwyaeth ffurfiol ar ran yr Awdurdod gael ei ddirprwyo i'r Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 15fed Tachwedd, fel methiant i gydymffurfio. Yn ei ymateb, roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi dynodi efallai byddai'n cyfeirio at y methiant i gyhoeddi'r Cynllun cymeradwyedig erbyn y dyddiad statudol yn Llythyr Blynyddol y Rheolwr Cysylltiadau ond, oherwydd diffyg canllawiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chyfres newydd o ddangosyddion strategol a chraidd, byddai'n nodi fod yr ymagwedd gymerwyd gan yr Awdurdod yn rhesymol wrth ystyried yr amgylchiadau.

***<u>Penderfynwyd:</u>***

i. ***nodi'r gofyniad i gyhoeddi Cynllun Gwella ar gyfer 2007/08 cyn 31ain Hydref 2007;***
ii. ***cymeradwyo mewn egwyddor y Cynllun Gwella drafft 2007/08, a bod unrhyw ddiwygiadau neu gwestiynau yn ymwneud â'r Cynllun yn cael eu hanfon i'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) erbyn 25ain Hydref 2007 i alluogi'r Awdurdod i gyhoeddi'r Cynllun erbyn 31ain Hydref 2007; a***
iii. ***dirprwyo pwerau i'r Panel Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 15fed Tachwedd 2007, i gymeradwyo'r ddogfen Cynllun terfynol ar gyfer 2007/08.***

11am: Fe adawodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) a'r Rheolwr Cynllunio Corfforaethol y cyfarfod yn y man hwn.

## 9) Cyflwyniad gan Atal Tân Cymru

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Ms Kim Smith, Prif Weithredwr Atal Tân Cymru, i'r cyfarfod. Cyn cychwyn ei chyflwyniad, fe ddosbarthodd Ms Smith gopïau o Adroddiad Blynyddol Atal Tân 2007 i'r aelodau.

Rhoddodd Ms Smith wybod i'r aelodau mai amcan Atal Tân Cymru, elusen gofrestredig, sefydlwyd oddeutu pedair mlynedd yn ôl, oedd gostwng y nifer o farwolaethau ac anafiadau yng Nghymru oherwydd tân. Roedd gan yr elusen nifer fechan o weithwyr a Bwrdd o Ymddiriedolwyr oedd yn cynnwys Prif Swyddogion Tân a Chadeiryddion y tri awdurdod tân ac achub Cymreig, cynrychiolwyr o Lywodraeth Cynulliad Cymru a thri aelod annibynnol. Roedd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am ddatblygu a chymeradwyo strategaeth gyfan y sefydliad.

Cyn ateb cwestiynau aelodau, rhoddodd Ms Smith orolwg byr o waith y sefydliad. Fe eglurodd fod ei waith yn amrywio o hyrwyddo diogelwch tân drwy gomisiynu hysbysebion radio a theledu o dan enw Fflach Tân i gynhyrchu llenyddiaeth diogelwch tân; cefnogi a hwyluso grwpiau lleihau llosgi bwriadol a'u cynorthwyo gyda ceisiadau am arian; addysgu plant a phobl ifanc drwy gamau allweddol o fewn cwricwlwm yr ysgol yng Nghymru ar y peryglon o dân ac am ddiogelwch yn gyffredinol; a gwaith ymchwil. Nid oedd llawer o waith wedi cael ei wneud ar y maes olaf yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond bwriad Ms Smith oedd gwneud mwy o waith yn y maes hwn yn y dyfodol. Roedd hi o'r farn y gallai Cymru, ac Atal Tân yn enwedig, ddod yn gronfa o waith ymchwil. Gyda chymaint o wybodaeth, data a ystadegau wedi eu casglu eisoes, roedd yr amser wedi dod iddo gael ei ddadansoddi er mwyn ei ddefnyddio mewn ymgyrchoedd sydd wedi eu hanelu i ddylanwadu newid mewn ymddygiad dynol fyddai, gobeithio, yn golygu gostyngiad yn y nifer o farwolaethau ac anafiadau sy'n gysylltiedig â thân. Trwy ddefnyddio Atal Tân i gydlynu gwaith hyrwyddo diogelwch tân ar draws Cymru, gellir targedu adnoddau mewn cyfran fesuredig a hafal ar draws y wlad. Gallai'r sefydliad gynorthwyo wrth dargedu'r negeseuon yma i gymunedau a dinasyddion sydd wedi datgysylltu. Trwy ddefnyddio'r elusen fel offeryn ar gyfer y gwaith hyrwyddo roedd modd sicrhau fod un neges yn cael ei throsglwyddo i bob cartref a busnes.

Wrth ymateb i gwestiynau, hysbysodd Ms Smith yr aelodau am lefel cyfraniad pob awdurdod tân ac achub yng Nghymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru i goffrau'r sefydliad, a'r gefnogaeth ariannol yr oedd Atal Tân ei hunan wedi gallu ei sicrhau o ffynonellau ariannol eraill. Anogodd aelodau i gysylltu gyda hi gydag awgrymiadau neu adborth ar ôl iddynt ddarllen yr Adroddiad Blynyddol. Er mwyn tawelu pryderon aelodau o effaith negyddol posib ar Ogledd Cymru fod Atal Tân wedi ei leoli yng Nghasnewydd, fe hysbysodd y Prif Swyddog Tân yr Awdurdod, fod Atal Tân ers ei sefydlu wedi magu cysylltiadau gwaith cryf gyda'r Gwasanaeth yng Ngogledd Cymru, a bod Ms Smith yn fwy na pharod i deithio i'r ardal yn rheolaidd.

Fe bwysleisiodd yr Is-Gadeirydd fod rhyngweithio gydag awdurdodau lleol yn hanfodol yn yr ymgais i ostwng y nifer o farwolaethau ac anafiadau oedd yn gysylltiedig â thân a gofynnodd os oedd Atal Tân mewn cysylltiad â Chyngor Diogelwch yn y Cartref Cymru. Dywedodd Ms Smith fod Atal Tân yn cyfranogi'n weithredol wrth hyrwyddo'r rhif rhadffôn Cymru gyfan am Archwiliad Diogelwch Tân yn y Cartref am ddim, nid oedd mewn cysylltiad gyda Chyngor Diogelwch yn y Cartref Cymru ar hyn o bryd. Fe eglurodd y byddai'n gwerthfawrogi derbyn manylion cyswllt y Cyngor gan yr Is-Gadeirydd.

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i Ms Smith am fynychu'r ac am annerch yr aelodau ac ateb eu cwestiynau.

## 10) Lleoli Peiriannau Deuddiben

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) ei adroddiad (ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn hysbysu'r aelodau o argymhellion y Panel Gweithredol i leoli peiriant deuddiben yn Nolgellau. Fe eglurodd, yn dilyn penderfyniad yr Awdurdod Tân ac Achub ar 18fed Mehefin i ohirio'r penderfyniad terfynol ar leoliad peiriant De Gwynedd, gan aros archwiliad pellach o'r ffeithiau, fod y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 25ain Gorffennaf wedi rhoi ystyriaeth fanwl i'r data a'r wybodaeth oedd yn berthnasol â'r mater. I sicrhau cadernid y data gwnaed y penderfyniad gwreiddiol arno, ailedrychwyd ar y data o flaen cyfarfod y Panel Gweithredol. Er budd yr aelodau, roedd yr adroddiad ystyriwyd gan y Panel Gweithredol, yn cynnwys yr holl fapiau, ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad ar gyfer y cyfarfod presennol a chofnodion cyfarfod y Panel wedi cael ei cyflwyno yn y cyfarfod presennol er dibenion gwybodaeth o dan eitem fusnes 4.

Fe gynigiodd y Cynghorydd E C George welliant i argymhelliad y Panel Gweithredol. Roedd wedi elwa o ymweliad ag Abermaw ar ôl derbyn gwahoddiad gan Gyngor y Dref, ac roedd o'r farn y dylid gohirio penderfyniad ar leoliad y peiriant ac y dylid cyfeirio'r mater yn ôl i'r Panel Gweithredol am ystyriaeth bellach. Fe hysbysodd y Cynghorydd George yr aelodau, ei fod wedi gweld y strydoedd cul ac wedi derbyn briff am faterion anhygyrchedd a materion eraill yn ymwneud â'r cynnig adleoli oedd yn achosi pryder i drigolion lleol ac i Gyngor y Dref yn ystod ei ymweliad o amgylch y dref. Yn ystod ei ymweliad, fe'i hysbyswyd fod Cyngor y Dref yn bwriadu estyn gwahoddiad i holl aelodau'r Panel Gweithredol i ymweld â'r dref am gyfarfod safle, ar amser a dyddiad oedd yn gyfleus i'r Panel, er mwyn iddynt allu clywed pryderon Cyngor y Dref a gweld y problemau anhygyrchedd drostynt eu hunain. Tynnodd yr Is-Gadeirydd sylw'r aelodau i ddigwyddiad yr wythnos flaenorol lle anfonwyd y peiriant deuddiben allan oherwydd nad oedd y peiriant cyntaf wedi gallu dod yn ddigon agos i'r eiddo i ddelio gyda'r tân. Mater arall oedd yn ei bryderu oedd y ffaith pan fo personél yn cael eu hanfon i orsaf dân Abermaw, roedd hyd at 12 o staff yn gallu troi mewn, ond gyda dim ond pump aelod o staff eu hangen i griwio peiriant rheng flaen, byddai'n rhaid i 7 sefyll i lawr. Os fyddai'r peiriant deuddiben yn cael ei gadw yn yr orsaf, gallasai'r personau hyn griwio'r peiriant deuddiben er mwyn helpu gyda'r peiriant rheng flaen. Wrth ymateb i'r materion hyn hysbysodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) yr aelodau ei fod yn weithdrefn arferol ym mhob gorsaf dân rhan amser i 12 aelod o staff gael eu galw i'r orsaf i ymateb i bob digwyddiad, unwaith y byddai y nifer angenrheidiol o staff yr oedd eu hangen i griwio'r peiriannau angenrheidiol byddai'r staff nad oedd eu hangen yn sefyll i lawr. Ynglŷn â'r materion y cyfeiriodd yr Is-Gadeirydd atynt, cynghorodd yr aelodau mai tân simdde oedd hwn, ac o dan weithdrefnau ymateb cydnabyddedig y Gwasanaeth, roedd yn gofyn am bresenoldeb un peiriant sengl. Roedd y peiriant rheng flaen anfonwyd i'r digwyddiad wedi gallu cyrraedd o fewn 80m i'r eiddo, ac roedd hyn o fewn y pellter angenrheidiol osodwyd mewn gweithdrefnau gweithredol i ddelio gyda'r fath ddigwyddiadau.

Roedd yr Is-Gadeirydd yn pryderu hefyd, er mai dim ond Cyngor Tref Abermaw oedd wedi codi'r materion yma, roedd gan ardaloedd eraill yn Ngogledd Cymru faterion mynediad tebyg. Gan ymateb i'r pwynt yma, fe gyfeiriodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) yr aelodau at baragraffau 15 a 16 o Atodiad 1 ei adroddiad oedd yn cymharu'r gymhareb o eiddo gyda mynediad cyfyngedig yn ardal Abermaw gyda rhai ardaloedd gorsaf eraill lle nad oedd peiriannau deuddiben wedi eu lleoli.

Adleisiodd y Cynghorydd E Morgan Jones farnau yr Is-Gadeirydd ac anogodd yr Awdurdod i ohirio penderfyniad ar y mater ac i'r Panel Gweithredol dderbyn gwahoddiad Cyngor Tref Abermaw, gan fod gan drigolion y dref ei hunan a'r ardaloedd cyfagos bryderon am y cynnig i adleoli.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ar pa un ai oedd llythyr gwahoddiad Cyngor y Dref i'r Panel Gweithredol wedi cael ei dderbyn ai peidio, fe gynghorodd swyddogion nad oedd llythyr wedi cael ei dderbyn ym Mhencadlys y Gwasanaeth erbyn diwedd yr wythnos flaenorol, ond gallasai'r oediad fod yn ganlyniad i'r anghydfod post diweddar. Yna, rhannodd y Cadeirydd ei gopi ef o'r llythyr gyda'r Clerc, a ddarllenodd y llythyr i'r aelodau.

Fe ofynnodd y Cadeirydd i swyddogion egluro os oedd y cyflwyniad o beiriannau deuddiben yn cael ei ohirio nawr o ganlyniad i'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn rhoi archeb fawr i'r cyflenwr am beiriannau tebyg. Fe gadarnhaodd swyddogion fod y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cyflwyno archeb fawr gyda'r cyflenwyr, ond na ddylai hyn achosi oediad diangen, gyda siasis y peiriannau deuddiben cyntaf i fod yn barod erbyn mis Rhagfyr 2008.

Fe gynghorodd y Cadeirydd yr aelodau na ddylent deimlo eu bod o dan unrhyw ymrwymiad i bleidleisio mewn ffordd benodol ar y mater hwn oherwydd ei safle ef ar yr Awdurdod.

Roedd yr Is-Gadeirydd o'r farn fod yr argymhelliad yn yr adroddiad wedi ei ffurfio yn absenoldeb gwybodaeth lawn ac felly, cynigiodd y dylid gohirio penderfyniad ar y mater gan aros ystyriaeth bellach gan y Panel Gweithredol, ddylai, yn ei dro, gyflwyno argymhelliad i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr. Eiliwyd y gwelliant hwn gan y Cynghorydd W J Chorlton.

Atgoffodd y Clerc yr aelodau o'r materion oedd yn ymwneud â gwerth gorau a'r angen i gymryd penderfyniadau mewn modd priodol ac amserol, y cyfeiriodd atynt yn gynharach o dan eitem fusnes 7. Aeth yn ei flaen i egluro fod gweithrediad y penderfyniad i leoli peiriant deuddiben De Gwynedd yn Nolgellau wedi ei ohirio eisoes gan aros archwiliad pellach gan y Panel Gweithredol o'r wybodaeth y gwnaethpwyd y penderfyniad gwreiddiol arno. Roedd y Panel wedi ail archwilio'r wybodaeth yn fanwl iawn ers hynny ac wedi dod i'r un casgliad ar gyfer lleoliad optimwm y peiriant, serch yr argymhelliad yn yr adroddiad gyflwynwyd iddynt. Roedd yr argymhelliad yma wedi bod yn

unfrydol, er fod y Cadeirydd wedi ymatal. Cynghorwyd yr aelodau gan y Clerc mai dyletswydd yr Awdurdod oedd i gymeradwyo'r cyfeiriad strategol er mwyn darparu gwasanaeth tân ac achub ar gyfer Gogledd Cymru ac i beidio â chymryd man benderfyniadau gweithredol, megis y lleoliad optimwm ar gyfer peiriannau. Mynegodd ei bryder, ers cychwyn rhaglen foderneiddio'r gwasanaethau tân ac achub, roedd yn ymddangos fod yr Awdurdod, lle bynnag posib, yn gohirio penderfyniadau ar faterion dadleuol. Hysbysodd y Clerc yr aelodau os y byddai penderfyniad ar y mater yma yn cael ei ohirio unwaith eto a'i gyfeirio yn ôl i'r Panel am ystyriaeth bellach, y byddai'n ystyried codi'r mater gyda Swyddfa Archwilio Cymru, gan ei fod yn pryderu nad oedd aelodau yn barod i gymryd penderfyniadau oherwydd pryderon neu bwysau gwleidyddol. Atgyfnerthwyd ei bryder oherwydd fod y diwygiad wedi ei gynnig gan yr Is-Gadeirydd, oedd o'r un grŵp gwleidyddol â'r Cadeirydd (er ei fod yn pwysleisio nad oedd hyn yn adlewyrchu rôl y Cadeirydd o gwbl: yn wir, roedd wedi ymatal rhag pleidleisio yn y Panel Gweithredol).

Gofynnodd y Cynghorydd P M Shone, os, wrth ystyried y safonau osodwyd fel egwyddorion bywyd cyhoeddus, y dylai aelodau penodol ddatgan diddordeb yn y mater ac ildio o'r drafodaeth. Fe gynghorodd y Clerc/Swyddog Monitro nad oedd y cod ymddygiad wedi ei dorri ac nad oedd yn ymwybodol o unrhyw ddiddordeb personol fel a ddiffinnir mewn deddfwriaeth oedd yn ymwneud â'r mater hwn. Roedd ei bryderon yn ymwneud â chyfanswm yr amser yr oedd yr Awdurdod wedi dreulio ar y mater hwn mewn cymhariaeth â'r amser yr oedd wedi ddyrannu ar gyfer penderfyniadau eraill, mwy strategol.

Gofynnodd y Cynghorydd P C Evans os oedd y Panel Gweithredol, fel rhan o'i drafodaethau, wedi ystyried dichonolrwydd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn darparu gwasanaeth wrth gefn i ardal De Gwynedd. Cyfeiriodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon y Cynghorydd Evans at fap o dan yr enw 'Abermaw a Dolgellau – Cyrraedd o fewn 30 munud' ddangoswyd yn atodiad olaf yr adroddiad. Os gwnaed y penderfyniad i leoli'r peiriant yn Nolgellau, gallasai'r peiriant gyrraedd ffin yr Awdurdod gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru o fewn yr amser cyrraedd o 30 munud. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân fod darpariaethau wedi cael eu gwneud yn Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru i awdurdodau ddod i gytundeb gydag awdurdodau tân ac achub at ddiben cyflwyno gwasanaeth effeithiol ac effeithlon ar draws ffiniau.

Cyn pleidleisio ar y gwelliant, fe ofynnodd y Cadeirydd i bleidlais gofrestredig gael ei chymryd ar y gwelliant. Cofnododd y Cynghorydd M Williams ei bryder o'r defnydd o bleidlais gostrestredig ar y mater. Cynghorodd y Clerc y Cadeirydd fod Rheolau Sefydlog yr Awdurdod yn gwneud darpariaethau ar gyfer pleidlais gofrestredig cyn belled a bod "y nifer briodol o aelodau" yn ffafrio fod y mater yn cael ei wneud yn bwnc pleidlais gofrestredig. Y nifer briodol oedd "1/3 o aelodaeth yr awdurdod, pwyllgor neu is-bwyllgor fel y bo'n briodol'. Yn yr achos yma, er mwyn gallu cymryd pleidlais gofrestredig, byddai rhaid i naw

aelod bleidleisio dros y cynnig o gofnodi sut y bwriodd pob aelod ei bleidlais. Pleidleisiwyd ar y cynnig o wneud y gwelliant yn bwnc pleidlais gofrestredig ac fe bleidleisiodd wyth aelod dros wneud y gwelliant yn bwnc pleidlais gofrestredig, felly:

***Penderfynwyd:*** ***- peidio â gwneud y gwelliant yn bwnc pleidlais gofrestredig.***

Yna, pleidleisiwyd ar welliant yr Is-Gadeirydd. O ganlyniad i bleidlais collwyd y gwelliant o fwyafrif. Fe ofynnodd y Cadeirydd a'r Cynghorydd W J Chorlton iddo gael ei gofnodi eu bod hwy wedi pleidleisio dros y gwelliant.

Yna, cynigiodd y Cynghorydd E F Evans argymhelliad y Panel Gweithredol ac fe'i eiliwyd gan y Cynghorydd D Clayton ac yn dilyn pleidlais, pasiwyd yr argymhelliad gan fwyafrif. Felly:

***Penderfynwyd:*** ***- derbyn argymhelliad y Panel Gweithredol i leoli peiriant deuddiben yn Nolgellau.***

Gofynnodd y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Cynghorydd W J Chorlton iddo gael ei gofnodi eu bod wedi pleidleisio yn erbyn yr argymhelliad.

**11) Alldro Amcanol Dros Dro 2007/08**

Fe gyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (ddosbarthwyd o flaen llaw) yn hysbysu'r aelodau o'r alldro amcanol dros dro arfaethedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2007/08. Fe gynghorodd yr aelodau fod y gwariant yn erbyn cyllidebau yn cael ei fonitro'n gyson gan staff y Gwasanaeth ac amlygwyd unrhyw amrywiaethau yn erbyn y gyllideb cyn gynted ag yr oeddynt yn digwydd. Roedd hyn yn galluogi'r Awdurdod i liniaru'r risg i'w safle ariannol. Roedd dangosyddion presennol yn pwyntio at orwariant cyllideb gyfan o oddeutu £12k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Cyn ateb cwestiynau aelodau, manylodd y Trysorydd yr amrywiaethau cyllideb oedd wedi eu rhestru yn ei adroddiad ac fe gynghorodd yr Awdurdod y disgwylir y gellir rheoli'r gorwariant yn fewnol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd E F Evans ar pa un ai fyddai'r Awdurdod yn derbyn ad-daliad am gostau tra'n helpu gyda'r gwaith llifogydd yn Swydd De Efrog yn ystod yr haf, fe gynghorodd y Trysorydd fod Awdurdod Tân ac Achub Swydd De Efrog wedi ad-dalu'r Awdurdod am y costau eisoes.

***Penderfynwyd:*** ***-***

*i.* ***nodi fod y gorwariant amcangyfrifedig presennol yn £12k ac y disgwylir y gellir ei reoli yn fewnol;***
*ii.* ***y byddai arian ar gael yn y Ddarpariaeth Pensiwn i gynnwys unrhyw orwariant; a***
*iii.* ***bod adroddiad yn manylu ar y ddarpariaeth bensiynau yn cael ei gyflwyno i aelodau yng nghyfarfod nesaf y Panel Gweithredol.***

**12) Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus**

Fe gyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw), oedd, yn unol â Chod Darbodus Cyllid Cyfalaf CIPFA a Chod Ymarfer Rheoli'r Trysorlys CIPFA, yn manylu unrhyw newidiadau arwyddocaol yn Nangosyddion Darbodus yr Awdurdod, newidiadau mewn benthyciadau tymor hir ac i restr yr Awdurdod o wrthbartion ac yn ceisio cymeradwyaeth yr Awdurdod i'r newidiadau oedd wedi eu gwneud.

***Penderfynwyd:* -**

- ***i. cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus diwygiedig;***
- ***ii. nodi'r rhestr diwygiedig o wrthbartion.***
- ***iii. nodi'r benthyciad newydd oddi wrth y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus.***

**13) Y Diweddaraf gan Weithgor yr Hyrwyddwyr**

Fe gyflwynodd y Swyddog Cyswllt Aelodau ei hadroddiad hi a'r Is-Gadeirydd ar y cyd (ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn hysbysu'r aelodau am waith y Gweithgor Hyrwyddo Diogelwch Cymunedol a Datblygu a Chefnogi Aelodau ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod ar 18fed Mehefin 2007.

***Penderfynwyd:* - nodi'r wybodaeth ddarparwyd.**

**14) Materion Brys**

Dim.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau yr argymhellid fod gweddill yr eitemau busnes ar agenda'r cyfarfod yn cael eu trafod heb bresenoldeb y cyhoedd na'r Wasg.

***Penderfynwyd:* - yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth drafod yr eitemau busnes canlynol gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt fel y diffinnir ym Mharagraffau 1, 8, 9 a 10 o Ran I o Atodlen12A o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.**

**RHAN II**

**15) Estyniad o Gytundeb Gofal y Cit Tân Gweithredol**

Yn absenoldeb y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael), fe gyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei hadroddiad (ddosbarthwyd o flaen llaw) yn ceisio cymeradwyaeth yr aelodau i ymestyn cytundeb gofal y cit tân gweithredol

presennol, oedd i ddod i ben ar 14[eg] Tachwedd 2007, am 12 mis pellach. Fe eglurodd fod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i aelodau yn unol â Rheol Sefydlog 6.1(ii) o Reolau Sefydlog yr Awdurdod Mewn Perthynas â Chytundebau.

Gyda golwg ar symleiddio'r arferion caffael mewn perthynas â'r cit tân gweithredol ac mewn ymgais i sicrhau effeithiolrwydd wrth gaffael, roedd y tri gwasanaeth tân ac achub Cymreig ar fin cychwyn trafodaethau ar ymagwedd gydweithredol yn y maes hwn. Gan fod cytundeb presennol yr Awdurdod ar fin dod i ben, ac i alluogi trafodaethau ar drefniadau yn y dyfodol i symud ymlaen heb i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru fethu â chymryd rhan gan ei fod wedi ei glymu gan drefniadau newydd hir dymor, gofynnwyd i'r aelodau gytuno ar y cynigion yn yr adroddiad.

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

- ***i. nodi'r wybodaeth oedd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad; a***
- ***ii. chymeradwyo'r cais i ymestyn y cytundeb presennol o 12 mis o'r 14eg Tachwedd 2007.***

Daeth y cyfarfod i ben am hanner dydd.